CANLLAWIAU

# Staff ysgolion a'u cyflogaeth: coronafeirws

**Gwybodaeth am staff ysgolion a'u cyflogaeth yn ystod y pandemig coronafeirws.**

## Cynnwys

Pa gyngor sydd ar gael i staff dysgu dros dro sydd wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol neu ysgol, a'r rhai sydd wedi'u cyflogi drwy asiantaethau cyflenwi?

Pa gymorth ariannol sydd ar gael i mi os wyf yn weithiwr dros dro, ac nad wyf yn gyflogedig ar hyn o bryd?

Oes disgwyl i athrawon ac ymarferwyr fynd i'r ysgol os nad ydynt yn y categori risg, ond bod rhywun arall yn y teulu yn perthyn i'r categori hwnnw? A fyddant yn cael eu talu, ac yn medru gweithio gartref?

A fydd athrawon a staff cynorthwyol yn cael eu profi, gan eu bod yn staff rheng flaen?

A fydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yn gallu cwblhau eu cyrsiau?

A fydd modd i Athrawon Newydd Gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu statudol tra bod ysgolion ar gau?

Beth ydych chi'n ei wneud i leihau'r baich ar benaethiaid ac ysgolion yn y sefyllfa eithriadol hon?

A fydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl ffurflenni data statudol gan

**ysgolion?**

---

## Pa gyngor sydd ar gael i staff dysgu dros dro sydd wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol neu ysgol, a'r rhai sydd wedi'u cyflogi drwy asiantaethau cyflenwi?

Gall staff cyflenwi naill ai fod wedi'u cyflogi gan awdurdodau lleol, asiantaethau cyflenwi, neu yn uniongyrchol gan ysgolion, ac awgrymir y dylai staff edrych ar delerau eu contract gyda'u cyflogwr. Mae hyn yn cynnwys gofyn am eglurder ynghylch a oes hawl ganddynt i gael taliadau salwch statudol. Bydd y math o gymorth sydd ar gael yn dibynnu ar statws cyflogaeth ac amgylchiadau'r unigolyn. Os nad yw'r staff cyflenwi yn siŵr beth yw eu **statws cyflogaeth** (https://www.gov.uk/employment-status/worker) ceir rhagor o wybodaeth.

Mae gan y rhai sydd wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol neu ysgol ar gontract hirdymor yr hawl i'r un telerau ac amodau â staff parhaol, a dylid eu talu yn unol â hynny.

Bydd gan staff sy'n gyflogedig drwy asiantaeth gontract gyda'r asiantaeth honno, a dylid trafod eu telerau gyda hwy. Caiff ysgolion sy'n cael athrawon cyflenwi drwy asiantaeth eu hannog i ddefnyddio asiantaethau sy'n bodloni gofynion Fframwaith Athrawon Cyflenwi Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru. Disgwylir i asiantaethau sydd ar y fframwaith gofrestru gyda chorff recriwtio proffesiynol cynrychioladol ac ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'n egwyddorion Gwaith Teg.

Er bod y polisi addysg wedi'i ddatganoli i Gymru, nid yw hynny'n wir am gyfraith cyflogaeth, felly Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar y cyngor ar y mater hwn. Mae hyn yn cynnwys cyngor i asiantaethau cyflenwi, sydd o bosib ag ymholiadau ynghylch cymorth i'w busnesau.

Mae Llywodraeth y DU nawr wedi gwneud cyhoeddiad ynghylch cymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael i gyflogwyr dan y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil y Coronafeirws. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i gyflogwyr (gan gynnwys

asiantaethau) roi seibiant oo hyd at dri mis i weithwyr Talu Wrth Ennill a hawlio 80% o gostau'r cyflogau. Mae'r cynllun yn agored i bob cyflogwr yn y DU oedd â gweithwyr Talu Wrth Ennill ar eu cyflogres ar 28 Chwefror 2020. Dylai staff cyflenwi asiantaethau drafod y cynllun hwn gyda'u hasiantaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y **cynllun** (https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme) hwn.

## Pa gymorth ariannol sydd ar gael i mi os wyf yn weithiwr dros dro, ac nad wyf yn gyflogedig ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, os yw COVID-19 yn effeithio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar rywun, ac nad oes modd iddynt weithio, os ydynt wedi talu digon o Yswiriant Gwladol dros y 2 flynedd ddiwethaf gallant **hawlio lwfans cyflogaeth a chynhaliaeth newydd sydd heb brawf modd** (https://www.gov.uk/employment-support-allowance/how-to-claim?step-by-step-nav=a661e652-204c-4abf-a2ce-9f183aca85b9).

Os yw rhywun yn ansicr ynghylch a yw wedi talu digono gyfraniadau drwy gyflogaeth i hawlio'r lwfans, y cyngor yw hawlio'r lwfans a Chredyd Cynhwysol ar yr un pryd. O ganlyniad, os na fydd yn gymwys i gael y lwfans cyflogaeth a chynhaliaeth newydd, ni fydd oedi yn yr hawliad Credyd Cynhwysol ac ni fydd yn colli unrhyw ddiwrnodau yr oedd ganddo hawl iddynt. Os nad yw wedi talu digon o yswiriant gwladol i hawlio'r lwfans, bydd angen hawlio Credyd Cynhwysol.

**Caiff Credyd Cynhwysol** (https://www.gov.uk/apply-universal-credit) ei hawlio ar-lein. Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn edrych ar Gredyd Cynhwysol, felly gallai'r cyngor hwn newid.

## Oes disgwyl i athrawon ac ymarferwyr fynd i'r ysgol os nad ydynt yn y categori risg, ond bod rhywun arall yn y teulu yn perthyn i'r categori hwnnw? A fyddant yn cael eu talu, ac yn medru gweithio gartref?

Os oes gan athrawon gyfrifoldebau gofal / rhywun sy’n dibynnu arnynt ac nad oes modd iddynt fynd i’r gwaith, dylid siarad â’u cyflogwr a chytuno ar drefniant rhesymol i weithio gartref. Bydd athrawon sy’n methu mynd i’r gwaith yn cael eu talu fel arfer.

Os yw aelod o staff yn dod o dan y categori gwarchod neu y categori cadw pellter cymdeithasol caeth, ni ddylid disgwyl iddynt weithio mewn ysgolion na hybiau.

Os bydd aelod o staff yn byw gyda rhywun sy’n agored i niwed, rydym yn disgwyl i gyflogwyr gymryd hyn i ystyriaeth. Wrth wneud hynny, dylid ystyried difrifoldeb yr achos unigol a’r lefelau presenoldeb disgwyliedig.

## A fydd athrawon a staff cynorthwyol yn cael eu profi, gan eu bod yn staff rheng flaen?

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar 21 Mawrth ynghylch y **capasiti i brofi yng Nghymru** (//llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-coronafeirws-covid-19-diweddariad).

Ar hyn o bryd, y cynnig yw profi gweithwyr gofal iechyd yn unig. Fodd bynnag, mae’r sefyllfa yn cael ei hadolygu yn gyson. Yn y cyfamser, cadw pellter cymdeithasol, golchi ddwylo a dilyn camau synhwyrol yw’r peth gorau i’w wneud.

## A fydd myfyrwyr sy’n dilyn cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yn gallu cwblhau eu cyrsiau?

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon sydd â myfyrwyr ar leoliadau mewn ysgol ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau yn cynghori darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon i ddod â lleoliadau ysgol i ben yr wythnos hon er mwyn lleihau’r risg i fyfyrwyr ac i ysgolion.

Er mwyn sicrhau bod y garfan bresennol o fyfyrwyr yn gallu cwblhau eu cyrsiau, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi disgresiwn i ddarparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon farnu pa mor addas yw eu myfyrwyr i dderbyn Statws Athro Cymwysedig yn seiliedig ar eu cyfnodau ar leoliad sydd wedi’u cwblhau hyd yma.

Pan fydd darparwyr yn dod i'r penderfyniad hwn yn ôl disgresiwn, bydd gofyn iddynt roi cynlluniau dysgu unigol i fyfyrwyr sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer unrhyw feysydd nad ydynt wedi llwyddo i'w cwblhau. Byddai gofyn i fyfyrwyr gyflawni'r dysgu yn y meysydd hyn yn ystod eu cyfnod sefydlu a darparu tystiolaeth berthnasol i'w darparwr sefydlu er mwyn ennill statws cymwys llawn.

Caiff unrhyw addysgu academaidd sydd ar ôl yn y flwyddyn ysgol hon ei wneud o bell drwy sianelau digidol. Bydd hyn yn galluogi'r garfan bresennol i raddio a chyflawni Statws Athro Cymwysedig er mwyn gallu mynd ymlaen i gyfnod sefydlu ym mis Medi.

## A fydd modd i Athrawon Newydd Gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu statudol tra bod ysgolion ar gau?

Rydym yn cydnabod y bydd athrawon newydd gymhwyso yn ddealladwy o bryderus am effaith bosib Covid-19 ar eu cyfnod sefydlu statudol. Rydym wedi gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau diwygiedig ar gyfer **athrawon newydd gymhwyso a phawb sydd ynghlwm wrth sefydlu statudol** (https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/cyfnod-ymsefydlu) i'w dilyn tra bod ysgolion ar gau.

## Beth ydych chi'n ei wneud i leihau'r baich ar benaethiaid ac ysgolion yn y sefyllfa eithriadol hon?

Am y tro, bydd gan ysgolion bwrpas newydd. Felly, byddwn yn llacio neu'n dileu unrhyw ofynion ar ysgolion a fyddai mewn grym dan amgylchiadau arferol. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar hyn yn barhaus.

Mae Estyn wedi atal ei drefniadau arolygu ers dydd Llun 16 Mawrth. Rydym hefyd yn bwriadu llacio'r gofynion i gynnal profion ac asesiadau cenedlaethol ac i adrodd yn ôl ar y canlyniadau, yn ogystal â'r gofynion i gymedroli.

Rydym wedi canslo unrhyw ofynion casglu data statudol a fyddai wedi digwydd cyn gwyliau'r haf, os nad ydynt wedi dechrau. Bydd y trefniadau arferol ar gyfer

adrodd ar fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 yn cael eu hatal eleni ac rydym hefyd yn ystyried y gofynion statudol a'r trefniadau cysylltiedig sy'n ddibynnol ar ddata.

## A fydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl ffurflenni data statudol gan ysgolion?

Ni fyddwn yn disgwyl ffurflenni data statudol y byddai eu disgwyl fel arfer cyn gwyliau'r haf, os nad ydynt wedi dechrau. Mae hyn yn cynnwys:

- Presenoldeb: casglu data cynradd 2020
- Presenoldeb: casglu data uwchradd 2020
- Casglu data Casglu Data Cenedlaethol 2020
- Casglu data Profion Cenedlaethol Cymru 2020

---


PERTHNASOL

**Addysg a gofal plant: coronafeirws** (https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

- **Amserau agor a gwasanaethau ysgolion: coronafeirws** (https://llyw.cymru/sut-y-bydd-ysgolion-yn-gweithio-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws)
- **Iechyd a lles staff ysgolion a dysgwyr: coronafeirws** (https://llyw.cymru/iechyd-lles-staff-ysgolion-dysgwyr-coronafeirws)
- **Addysg bellach: coronafeirws** (https://llyw.cymru/addysg-bellach-ac-addysg-uwch-coronafeirws)
- **Profion ac asesiadau: coronafeirws** (https://llyw.cymru/profion-ac-asesiadau-coronafeirws)

**Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi** (https://llyw.cymru/cymorth-ir-rheini-syn-hyfforddi)

- **Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws** (https://llyw.cymru/dysgu-seiliedig-ar-waith-phrentisiaethau-coronafeirws)


---


### Cyhoeddwyd gyntaf

24 Mawrth 2020

## Diweddarwyd ddiwethaf

31 Mawrth 2020

## Rhan o

**Addysg a gofal plant: coronafeirws** (https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

**Cyflog ac amodau athrawon** (https://llyw.cymru/cyflog-ac-amodau-athrawon)

**Darparu addysg gychwynnol i athrawon** (https://llyw.cymru/darparu-addysg-gychwynnol-i-athrawon)